gwionhallam

Dyddiad Geni 9 Awst 1973

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Cefais fy ngeni yn Abertawe a'm magu yn Rhydaman.

Ble rydych chi'n byw nawr?
Ar lan y Fenai, yn y Felinheli.

Beth yw eich gwaith?
Sgwennwr.

Ble cawsoch chi eich addysg?
Ysgol Gynradd Gymraeg Rhydaman, Ysgol Uwchradd Maes yr Yrfa, Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?
Hoff iawn o actio ac actio'r ffŵl, tynnu ar yr athrawon, gwersi cerdd, *pasties* siop Julie, chwarae *covers* o ganeuon yr Anhrefn mewn band gwael, ac yfed coffi wrth wrando ar gerddoriaeth yn ystafell y Chweched (Blynyddoedd 12/13). Hoff wersi – drama, a gwersi Saesneg pan fyddai Miss Wilkins yn darllen nofelau cyfan i ni. Dwi ddim yn cofio casáu unrhywbeth mewn gwirionedd.

Beth oedd eich hoff lyfr pan yn blentyn?
Barti Ddu gan T. Llew Jones, *Beibl y Plant*, a *The Hobbit* gan Tolkien.

Beth yw eich hoff ddiddordebau?
Darllen, ffilmiau, lawrlwytho a gwrando ar gerddoriaeth, beicio, mynd ar wyliau, yfed coffi, bwyta, gweiddi ar y plant a chwarae gyda nhw, mynd i nosweithiau darllen a *stand up*.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?
Noa a Moi (fy mhlant).

Beth sy'n eich gwylltio chi?
Noa a Moi.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?
Dwi wedi ysgrifennu straeon a cherddi er pan o'n i'n ifanc iawn! Ond o ran ei fod yn brif waith i mi hefyd, ers rhyw bum mlynedd.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?
Nac ydw. Ydw. Weithiau. Hawdd ysgrifennu'n felodramatig a blodeuog ac ystrydebol. Anodd bod yn gynnil ac yn wreiddiol.

O ble ydych chi'n cael eich syniadau?
O unrhyw le heblaw y dudalen 'Word' wag ar y sgrin fel arfer. Daw'r syniadau gorau, gan amlaf, pan na fydda i'n ysgrifennu o flaen y sgrin. Daeth y prif syniad ar gyfer *Creadyn* – o fachgen yn cael ei gnoi gan ddraenog 'radioactive' – tra o'n i'n eistedd yn yr ardd yn siarad â ffrind a sylwi ar ddraenog yn cerdded heibio. Petai un o lewod y Felinheli wedi cerdded heibio, fe fyddai hi'n nofel wahanol iawn!

Ydych chi'n teimlo ei bod yn bwysig i ysgrifennu mewn dull cyfoes i apelio at gynulleidfa ifanc?
Os mai adrodd y stori yw'r prif bwrpas, mae'n hanfodol nad yw'r iaith a'r dull o sgwennu'n amharu ar y naratif. Yn achos *Creadyn* felly, oedd, mi roedd hi'n bwysig bod yr arddull yn gyfoes a darllenadwy. Dyna oedd fy mwriad, beth bynnag.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?
Triwch yn galetach. Ond mwynhewch a dweud y gwir am y byd a'i bobl, fel y gwelwch chi bethau.

Oes llyfr arall gyda chi ar y gweill ar hyn o bryd?
Dwi wedi dechrau ysgrifennu nodiadau a syniadau am ddilyniant i *Creadyn*. Y teitl sy yn fy mhen ar hyn o bryd ydi *Crafangau'r Creadynnod*.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?
Rhannu swyddfa gyda Dewi – gormod o chwerthin a dim digon o sgwennu! Eleri a'r plant – dim ond trwy chwerthin mae Eleri'n gallu diodde byw gyda fi! Nosweithiau *stand up* 4 a 6 yn y Blac Boi yng Nghaernarfon.

Adnabod Gwion
a'i nofel Creadyn

Y gwahaniaethau rhwng y Creadyn a'r Awdur:

- Mae Huw Dafis y Creadyn wedi symud i fyw o'r gogledd i'r de tra mod i wedi gwneud y gwrthwyneb.
- Mae Huw Dafis yn byw gyda'i dad a Blac Belt, ei gath fach wyllt.
- Dwi'n byw gydag Eleri, a Noa a Moi ein meibion bach ... gwych!
- Yn sgil cael ei gnoi gan ddraenog 'radioactive' mae Huw Dafis yn gwylltio ac yn trawsnewid yn greadur gwallgo. Yn sgil cael fy nghnoi gan y bỳg sgrifennu 'ma, dwi wedi trawsnewid yn awdur straeon gwallgo sy'n cael eu darllen gan bobl sydd o bosib mor wallgo â fi!
- Mae Huw Dafis yn breuddwydio am garu'r ferch ryfeddaf a welodd erioed – Katrin Kidd â'i gwallt du a'i iaith liwgar a thatŵ ar ei llaw. Dwi'n breuddwydio am ysgrifennu'r nofel ryfeddaf a sgwennaf i fyth – *Crafangau'r Creadynnod* – hefo'i stori ddu a'i iaith liwgar sy'n gafael fel tatŵ ar eich llaw.
- Mae Huw Dafis yn ennill ffrind yn y diwedd, yn cael y gorau ar Lee Wheelan, a'i stori'n ennill gwobr Tir na n-Og! Ond dwi'n colli bob dim – fy nhymer, fy mhwyll, a dwi erioed wedi ennill y loteri. Ond cofiwch, dwi erioed wedi trio chwaith!
- Mae gwallt sbeici fel draenog gan Huw. Pen moel fel bêcd bîn sy gyda fi.
- Mae Huw'n chwarae rygbi yn wael, tra mod i'n chwarae Scrabble – yn waeth!
- Mae Huw Dafis yn freuddwydiwr a dw innau'n freuddwydiwr hefyd – dyna i chi debygrwydd o'r diwedd – ac mae'n dannedd ni'n rhyfedd o hir!

Enillodd Gwion Hallam wobr Tir na n-Og* yn 2006 am ei nofel Creadyn.

*Noddir y gwobrau gan Gyngor Llyfrau Cymru a CILIP Cymru

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
LLYFRAU AR LEIN BOOKS ONLINE